# Telerau ac Amodau

## Ad-daliadau

- Os nad yw dysgwr yn ymddangos yn y wers gyntaf, ad-delir 80% o'r ffi.
- Os nad yw dysgwr yn parhau i ddysgu o fewn y 4 wythnos gychwynnol, bydd angen ad-dalu 50% o'r ffi.
- Os yw dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau wedi'r 4 wythnos gyntaf, ni chynigir ad- daliad.

## Trosglwyddo

Gallwch drosglwyddo o un cwrs i gwrs cyfatebol sy'n rhedeg o fewn yr un flwyddyn academaidd.

| Telerau ac amodau'r gostyngiadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw'r gostyngiad** | **Diffiniad** | **Pwy sy'n gymwys** | **Y gostyngiad** | **Prawf** |
| Dychwelwyr | Dysgwyr sy'n dychwelyd i ddysgu am yr ail flwyddyn + . Os oes bwlch o fwy na blwyddyn yn y dysgu yna nid yw'r dysgwr yn gymwys. | Pob dysgwr | 20%<br><br>Gorffen: 15/07/19 | Bydd modd i adnabod dychwelwyr o ddata'r Safle Rhyngweithiol. |
| Cyw Cynnar | Dysgwyr sydd yn cofrestru o fewn cyfnod o amser penodol | Pob dysgwr | 20% i ffwrdd<br>**Gorffen:**<br>Cyrsiau Medi: 15/07/19<br>Cyrsiau Ionawr: 15/12/19 | Defnyddio Cod y Gostyngiad: **Ionawr2020** erbyn y dyddiadau a noder yng ngholofn "Y gostyngiad". |
| Pensiynwyr | Yn derbyn Credyd Pensiwn | Dysgwyr sydd yn gallu profi eu bod yn derbyn Credyd Pensiwn | 40% | Dogfennau budd-daliadau/credyd pensiwn |
| Myfyrwyr | Yn astudio cwrs hyfforddi (yn ychwanegol at y cwrs Cymraeg i Oedolion) gyda Choleg neu Brifysgol. | Dysgwyr sydd yn gallu profi eu bod yn fyfyrwyr | 40% | Cerdyn NUS neu gerdyn adnabod y Coleg/Prifysgol |
| Ar fudd-daliadau | Yn hawlio budd- daliadau e.e budd-dal anableddau, di-waith, gofalwyr, derbyn credydau treth, credydau pensiwn ayb. | Dysgwyr sydd yn gallu profi eu bod yn derbyn budd-daliadau | 40% | Dogfennau budd-daliadau |

Noder: Nid oes modd hawlio dau ostyngiad gwahanol am yr un cwrs.